**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

# ADRODDIAD Y GWEINIDOG CYNULLIAD I'R PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES AR 9 MAI 2001

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf am y materion penodol yr oedd y Pwyllgor am gael mwy o wybodaeth amdanynt ers yr adroddiad a gyflwynwyd gennyf ar 21 Mawrth. Yn **Atodiad A** rhestrir fy mhrif ddyletswyddau ers yr adroddiad diwethaf.

## 1. ADDYSG GORFFOROL A CHWARAEON MEWN YSGOLION

Mae'r Tasglu Ymarfer Corff a Chwaraeon mewn Ysgolion wedi cyhoeddi'i adroddiad ac yn fras, yr wyf yn fodlon â'r argymhellion sydd ynddo. Er hynny, byddaf yn cyhoeddi'r adroddiad y mis nesaf at ddibenion ymgynghori a bydd copïau ar gael i'r Pwyllgor. Byddaf wedyn yn cyflwyno adroddiad manylach i'r Pwyllgor ym mis Mehefin.

## 2. GWYBODAETH PERFFORMIAD YSGOLION UWCHRADD:

### YMGYNGHORI

Cyhoeddais fy nghynigion ar Ddyfodol Gwybodaeth Perfformiad Ysgolion Uwchradd ar 2 Ebrill – dylech fod wedi cael copi o'r papur ymgynghori. Byddwch yn gwybod bod y cyfnod ymgynghori yn para tan 22 Mehefin ac mae'n amlwg y bydd angen i ni aros tan hynny cyn dod i unrhyw gasgliadau. Hyd yn hyn mae 60 o ymatebion wedi dod i law, ond yn ddi-os bydd gwyliau'r Pasg wedi cael dylanwad yn hyn o beth, a byddwn yn disgwyl gweld mwy o ddiddordeb ac ymatebion gan fod yr ysgolion bellach yn ôl wrth eu gwaith.

## 3. ESTYN

Ysgrifennais at Brif Arolygydd ei Mawrhydi ar 16 Mawrth yn nodi cylch gwaith Estyn ar gyfer 2001-2002. Fel y byddech yn disgwyl, mae'r cylch gwaith yn canolbwyntio ar godi safonau addysgu a dysgu ac yn enwedig ar safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae'r cylch gwaith hefyd yn gofyn am gyngor penodol am safonau'r ddarpariaeth ym maes Anghenion Addysgol Arbennig – mater a oedd yn destun pryder yn adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd – ac am y ddarpariaeth ar gyfer gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol wrth symud o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Byddaf yn cyfarfod â Susan Lewis yn yr hydref i drafod sut y mae'r cylch gwaith yn dod yn ei flaen ac i edrych ar y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Yr wyf hefyd yn fodlon â Chynllun Estyn ar gyfer 2001-2002, ac yr wyf wedi ysgrifennu at Brif Arolygydd ei Mawrhydi i'r perwyl hwnnw. Pan gyhoeddir y Cynllun, mae'n fwriad gennyf gyflwyno'r papur hwn i'w nodi'n ffurfiol gan y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor am nodi hefyd bod y broses ddeddfwriaethol ar gyfer Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 yn mynd rhagddi ar ôl i'r ymarfer ymgynghori ddod i ben, a bod y rhai a ymatebodd, at ei gilydd, yn fodlon â hwy. Mae'r rheoliadau drafft, sydd ar gael ar Fewnrwyd y Cynulliad, yn disgrifio'r cyfnodau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwaith arolygu Estyn ar addysg a hyfforddiant ar ôl 16. Bydd y Rheoliadau'n dod i rym ar 1 Awst 2001.

## 4. EFFAITH CLWY'R TRAED A'R GENAU AR SWYDDI A LLEOEDD HYFFORDDI

Gan droi yn awr at Glwy'r Traed a'r Genau, yr wyf am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith sy'n cael ei wneud gan fy swyddogion, ELWa a'r Gwasanaeth Cyflogi i helpu unigolion yr effeithiwyd ar eu swyddi a'u lleoedd hyfforddi.

Mae'n gwbl amlwg bod y clwy wedi effeithio ar nifer mawr o bobl ac o fusnesau, nid dim ond ar amaethyddiaeth ac ar y gadwyn gyflenwi, ond hefyd ar dwristiaeth, manwerthu a sectorau eraill o'r economi wledig.

Mae ystod o fesurau wedi cael eu datblygu, neu'n cael eu datblygu, er mwyn i bobl sy'n gorfod gweithio llai o oriau; sydd wedi colli'u swyddi dros dro neu sydd wedi'u diswyddo o ganlyniad i Glwy'r Traed a'r Genau, gael cyngor a darpariaeth hyfforddi o safon er mwyn gwella neu ehangu eu sgiliau. Mae angen i ni annog a helpu pobl i barhau'n weithgar yn y sectorau hynny sy'n bwysig i'r economi wledig a sicrhau bod y busnesau yr effeithir arnynt yn gallu cadw a recriwtio staff medrus fel eu bod y barod am yr adfywiad yn yr economi.

Yn ogystal â'r rheini sydd wedi colli'u swyddi, mae'n amlwg hefyd na fydd llawer o bobl a fyddai'n arfer cael gwaith tymhorol yr adeg hon o'r flwyddyn yn cael cyfle i wneud hynny.

Rhaid canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny yng Nghymru a ddioddefodd yr ergyd drymaf, yn benodol Sir Fôn, Powys a Sir Fynwy. Er hynny, yr wyf hefyd am wneud yn siwr ein bod yn cynnig help llaw i bob ardal yng Nghymru lle y mae'r economi wledig yn ei chael hi'n anodd yn sgil y clwy ofnadwy hwn.

Mae ELWa, y Gwasanaeth Cyflogi, Gyrfaoedd Cymru a Chyngor NTO Cymru eisoes yn datblygu ffyrdd o weithredu a fydd y golygu y bydd pobl yn gallu manteisio ar ystod o ddarpariaeth er mwyn gwella neu ehangu eu sgiliau.

Mae angen i ni sicrhau bod rhaglenni sy'n bod eisoes, megis *Prentisiaethau Modern*, yn cael eu cyflwyno mewn ffordd hyblyg er mwyn ymateb i anghenion y rheini yr effeithir arnynt. I'r perwyl hwnnw, mae ELWa **eisoes** wedi nodi ffyrdd i helpu hyfforddeion, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr – er enghraifft, bydd hyfforddeion sy'n cael eu cyflogi ac sydd wedi'u diswyddo yn dal i gael lwfans hyfforddi yn hytrach na gorfod cofrestru'n ddi-waith.

Yr ydym hefyd wedi llacio'r amodau mynediad ar gyfer *Dysgu yn Seiliedig ar Waith i Oedolion*, er mwyn i bobl sydd wedi'u diswyddo; sydd wedi colli eu swyddi dros dro; neu sy'n gorfod gweithio llai o oriau gael dechrau arni yn syth yn lle bodloni'r maen prawf arferol o fod yn ddi-waith ers 6 mis.

Mae'r Gwasanaeth Cyflogi yn ystyried cynnig mwy o gymorth ymgynghorol a llacio'r amodau ar gyfer ei raglenni ef mewn modd tebyg. Yr oedd Canolfannau Gwaith y Drenewydd a Llangefni ar agor yn rhan amser dros Wyl y Banc y Pasg, er mwyn darparu siop un-stop i roi cyngor ac arweiniad. Bydd Gyrfaoedd Cymru yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyflogi i sicrhau bod cyngor arbenigol ar ddewisiadau o ran gyrfa ac o ran dysgu ar gael i'r rheini y mae arnynt eu hangen.

Mae ELWa yn ystyried a oes modd dechrau ynghynt ar brosiectau sydd ar y gweill ar gyfer twristiaeth ac amaethyddiaeth a sectorau eraill sydd wedi dioddef, er mwyn iddynt allu cynnig yr help y mae cymaint ei angen cyn gynted â phosibl. Mae hefyd yn adolygu'r blaenoriaethau yn y cynlluniau y mae wedi'u hetifeddu oddi wrth gyrff a oedd yn ei ragflaenu er mwyn sicrhau bod y rhaglenni a'r mentrau yn canolbwyntio ar yr ardaloedd lle y mae'r angen mwyaf.

Mae ELWa, ar y cyd â Chyngor NTO Cymru, yn nodi anghenion hyfforddiant sectorau penodol, i helpu'r rheini sydd wedi colli'u swyddi dros dro neu sy'n gorfod gweithio llai o oriau. Er bod y gwaith hwn wedi'i anelu at y bobl hynny sydd wedi colli'u gwaith dros dro neu'n barhaol, rhaid peidio ag anghofio bod nifer mawr o bobl yn yn economi wledig sy'n hunan-gyflogedig, ac yr wyf am i'r cymorth hwn fod ar gael iddynt hwy hefyd.

## 5. CORUS: MESURAU ADDYSG, HYFFORDDIANT A CHYFLOGAETH

Ddydd Iau diwethaf, gwnaed datganiad gan Brif Weinidog Cymru yn y Cyfarfod Llawn lle cyhoeddwyd rhaglen weithredu gwerth £66 miliwn i helpu'r unigolion a'r cymunedau hynny yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan benderfyniad Corus i gau eu ffatrïoedd yng Nglynebwy ac ym Mryngwyn, torri'n ôl yn sylweddol yn Shotton a Llan-wern, ac i helpu'r rheini yr effeithiwyd arnynt gan gyhoeddiadau blaenorol am ddiswyddiadau, megis Port Talbot.

O fewn y rhaglen hon, budd £7 miliwn ychwanegol ar gael ar gyfer pecyn cynhwysfawr o

gymorth ar gyfer addysg, cymorth gyda sgiliau hyfforddi, a mesurau cyflogaeth. Bydd hyn yn fodd i sicrhau bod gweithwyr a ddiswyddwyd gan Corus, teuluoedd y gweithwyr hynny, a'r rheini sydd yn y gadwyn gyflenwi yn gallu cael y cyngor a'r help angenrheidiol i ddod o hyd i swyddi newydd.

Yn gysylltiedig â hyn, deallaf y bydd yr undebau a Corus yn gwneud cais ar y cyd am arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i gynnal pecyn hyfforddi ar gyfer gweithwyr sydd ar fin colli'u swyddi. Mae'n debyg mai cyfanswm cost pecyn o'r fath fydd tua £5.7 miliwn yng Nghymru, ac mae Corus wedi cytuno i wneud cyfraniad ariannol sylweddol.

Yr wyf hefyd yn croesawu'r mesurau adfywio ychwanegol, gwerth tua £43 miliwn, a gaiff eu cyflwyno; a'r ffaith bod £16 miliwn pellach ar gael oddi wrth yr Adran Diwydiant a Masnach ar gyfer math o gynllun ISERBS diwygiedig, a fydd yn rhoi cyfandaliad pellach gwerth £2,500 i bob un o'r gweithwyr sydd wedi'u diswyddo yn y diwydiant dur ers mis Ionawr 2000.

## 6. RHEOLI PERFFORMIAD ATHRAWON

Mae papurau ymgynghori wedi'u dosbarthu ar y system arfaethedig ar gyfer rheoli perfformiad athrawon yng Nghymru. Mae copïau wedi'u hanfon at ystod eang o gyrff sydd â buddiant, gan gynnwys yr awdurdodau addysg lleol, undebau'r athrawon a phob ysgol. Mae'r cynigion yn mabwysiadu'r dull o weithredu y cytunwyd arno y llynedd gan y cyn Bwyllgor Addysg Cyn 16 Oed. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau am y cynigion hyn yw 15 Mehefin.

System yw rheoli perfformiad (arfarnu athrawon) lle yr adolygir perfformiad yn flynyddol ac sy'n cynnwys trafodaeth broffesiynol rhwng athrawon a'u harweinwyr tîm a rhwng penaethiaid a'u cyrff llywodraethu am nodau a'r hyn a gyflawnwyd.

Mae rheoli perfformiad yn helpu ysgolion i wella trwy gefnogi a gwella gwaith yr athrawon fel unigolion ac mewn timau. Mae'n gosod fframwaith er mwyn i athrawon a'u harweinwyr tîm gytuno ar flaenoriaethau ac amcanion yng nghyd-destun cynlluniau datblygu'r ysgolion, ac yna'u hadolygu. Mae'n fodd i sicrhau bod ysgolion yn canolbwyntio ar addysgu ac arweinyddiaeth mwy effeithiol er lles y disgyblion, yr athrawon a'r ysgolion.

Mae'r rheoliadau sy'n bod eisoes yn darparu ar gyfer arfarnu perfformiad athrawon ysgol. Byddai'r rheoliadau arfaethedig ar reoli perfformiad yn cyflwyno cylch blynyddol o reoli perfformiad ar gyfer pob athro, gan osod amcanion ar gyfer perfformiad ar ddechrau'r cylch, monitro yn ystod y cylch, ac adolygu perfformiad ar y diwedd. Mae'r nod fel a ganlyn:

- sicrhau bod gan bob ysgol bolisïau a gweithdrefnau i reoli perfformiad, sy'n gyson o ran dulliau gweithredu

- darparu gweithdrefn gliriach ar gyfer asesu perfformiad athrawon mewn perthynas â blaenoriaethau ac amcanion y cytunwyd arnynt, ac a ddylai helpu athrawon i fod yn fwy effeithiol er eu lles eu hunain ac er lles y plant y maent yn eu haddysgu

- helpu i sicrhau bod anghenion hyfforddi ac anghenion o ran datblygiad proffesiynol yn cael eu nodi, a bod camau'n cael eu cymryd i'w bodloni, a hynny'n gyson ac yn rheolaidd

Cyflwynwyd rheoliadau rheoli perfformiad yn Lloegr ym mis Medi 2000. Bwriedir cyflwyno rheoliadau yng Nghymru erbyn mis Rhagfyr 2001, a bydd rheidrwydd ar bob ysgol i sefydlu cylchoedd rheoli perfformiad erbyn mis Medi 2002 fan hwyraf.

*Er hynny, mae'n rhaid wrth system yng Nghymru sy'n briodol i Gymru. Er bod y strwythur sylfaenol yr un peth, mae'n cynigion ni yn wahanol i'r rhai yn Lloegr mewn sawl ffordd. Er enghraifft –*

- yr ydym wedi rhoi cryn bwyslais ar amcanion sy'n gysylltiedig â datblygiad proffesiynol

- yr ydym am i amcanion sy'n ymwneud â chynnydd y disgyblion fod yn eang eu gorwelion – yr ydym yn pwysleisio y dylid eu gosod yng

nghyd-destun datblygiad disgyblion yn yr ystyr ehangaf ac y dylai gymryd

cyrhaeddiad blaenorol i ystyriaeth

- yr ydym wedi cadw'r system bresennol lle mae cyd bennaeth yn rhan o'r broses o arfarnu pennaeth

- mae'n fwriad gennym ddarparu ymgynghorwyr allanol ar gyfer yr ysgolion trwy rôl ymgynghorol bresennol yr awdurdodau addysg lleol, yn hytrach na chyflogi contractwyr preifat i ymgymryd â'r gwaith hwn.

**7. CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU**

Yn y cyfarfod ar 21 Mawrth dywedais fod Cadeirydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru wedi gofyn i mi ystyried darparu arian ychwanegol i helpu'r cyngor gyda'i gostau cychwynnol wrth sefydlu.

Euthum ati yn sgil hyn i adolygu'r cyllidebau addysg yn 2001/02, ac ar y cyd â'r Gweinidog dros Gyllid, rhoddais sêl fy mendith ar drosglwyddo £690,000 o'r Llinell Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Rheoli Perfformiad Athrawon i'r Llinell Gwariant ar gyfer y Cyngor Addysgu Cyffredinol. Bydd yr arian ychwanegol yn helpu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru â'r anghenion sydd ganddo ar hyn o bryd, yn rhoi mwy o amser i'r Cyngor drosglwyddo'i neges i

athrawon a'u darbwyllo y bydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn eiriolwr effeithiol a dylanwadol y bydd yn werth iddynt ei gefnogi trwy eu ffïoedd. Bydd yr arian yn talu costau llawn y Cyngor yn 2001-02, ac mae'n golygu felly, na fydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cyflwyno ffi gofrestru ar gyfer athrawon tan fis Ebrill 2002 (o'i gymharu â Hydref 2001 yn Lloegr).

At hynny, ers y cyfarfod diwethaf, yr wyf hefyd wedi holi am y maes cenedligrwydd ar gronfa ddata'r Cyngor o athrawon, ac mae'n dda gennyf allu dweud y bydd yr holl athrawon sy'n cofrestru yn cael cyfle i gofnodi eu bod yn Gymry.

8. **LLYTHYR ODDI WRTH YR ATHRO JOHN ANDREWS, CADEIRYDD,**

**CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU**

Mae'r Athro John Andrews, Cadeirydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, wedi ysgrifennu ataf i ac at Jacqui Smith, Gweinidog yn yr Adran Addysg a Chyflogaeth. Mae copi o lythyr yr Athro Evans ataf i wedi'i roi i'r Pwyllgor. Mae'r Cadeirydd wedi gofyn i mi fynegi barn am y llythyr hwn.

Mae llythyr yr Athro Andrews yn ymdrin yn bennaf â'r trefniadau gweinyddol hynod fanwl ar gyfer cofnodi pwy sydd â Statws Athro wedi'i Gymhwyso yng Nghymru. Mae hefyd yn ymdrin â phwy ddylai benderfynu pwy sy'n cael Statws Athro wedi'i Gymhwyso.

**Rhoi statws athro wedi'i gymhwyso**

Y Cynulliad Cenedlaethol sy'n penderfynu pwy ddylai gael Statws Athro wedi'i Gymhwyso yng Nghymru. Mae hyn yn bwysig gan mai dim ond pobl sydd â Statws Athro wedi'i Gymhwyso sy'n cael addysgu mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae'n golygu ein bod yn gallu sicrhau mai pobl sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, ac sydd â'r cymwysterau priodol sy'n addysgu yn ein hysgolion.

Mae'r Cynulliad yn gallu trosglwyddo'r per i roi Statws Athro wedi'i Gymhwyso i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Y bwriad oedd gadael i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ymsefydlu a wedyn rhoi'r swyddogaeth ychwanegol hon iddynt. Yn fy marn i, gan mai dyma'r corff proffesiynol ar gyfer athrawon, synnwyr cyffredin yw rhoi'r gallu iddo reoli pwy gaiff ddod yn aelod o'r proffesiwn. Byddaf yn ystyried hyn ymhellach, ac yn ymgynghori ynghylch y dewisiadau yn y dyfodol. Câi unrhyw gynigion eu trafod yn llawn â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth am newid y ddeddfwriaeth er mwyn iddynt allu gofyn i Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr roi Statws Athro wedi'i Gymhwyso yn Lloegr. O wneud hyn, byddai eu pwerau'n cyd-fynd â'r rhai sydd gan y Cynulliad eisoes. Mater i'r

Adran Addysg a Chyflogaeth yw penderfynu a fyddent yn hoffi i Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr ddechrau arfer y swyddogaethau hyn.

**Trefniadau gweinyddol**

Y Cynulliad sy’n rhoi Statws Athro wedi’i Gymhwyso i athrawon sy’n cael eu hyfforddi yng Nghymru. Y Swyddfa Gymreig a oedd yn gwneud hyn cyn datganoli. Ond yn hanesyddol, mae’r Adran Addysg a Chyflogaeth wedi cadw un gronfa ddata o’r holl athrawon sy’n gymwys i ddysgu yng Nghymru a Lloegr. Ar ôl datganoli, mewn concordat rhwng y Cynulliad a’r Adran Addysg a Chyflogaeth, cytunwyd y byddai’r trefniant hwn yn parhau.

Bellach, mae’r Adran Addysg a Chyflogaeth wedi gofyn i Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr ymgymryd â rhai o’r swyddogaethau gweinyddol sy’n gysylltiedig â chadw’r cofnod hwn. Yr oedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn awyddus i ymgymryd â’r gwaith gweinyddol ar gyfer Cymru, ond mae’r Adran Addysg a Chyflogaeth wedi gwrthod y cais hwn. Dyma’r prif reswm dros lythyr yr Athro Andrews.

Gwaith mecanyddol iawn yw gweinyddu cofnodion athrawon, ac nid oes bron dim cyswllt â’r cyhoedd. Mae’n ymwneud yn bennaf â chyswllt rhwng swyddogion y Cynulliad, yr Adran Addysg a Chyflogaeth, y ddau Gyngor Addysgu Cyffredinol a’r sefydliadau sy’n darparu hyfforddiant ymarfer dysgu cychwynnol. Prif effaith y newidiadau fydd trosglwyddo’r gwaith casglu data o’r Adran Addysg a Chyflogaeth i Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr.

Dim ond un effaith gyhoeddus fydd i’r newidiadau, sef y bydd yn rhaid i gymwysterau athrawon o fannau eraill yn yr UE, sydd am addysgu yng Nghymru neu yn Lloegr, gael eu harchwilio gan swyddogion Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr yn hytrach na chan yr Adran Addysg a Chyflogaeth.

Gwn fod yr Adran Addysg a Chyflogaeth wedi ystyried cais Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i fod yn rhan o’r gwaith hwn. Ond byddai anawsterau ymarferol dybryd yn codi wrth rannu’r cofnodion sy’n bod eisoes, a hynny er fawr dim lles.

Mae gweithgor o swyddogion y Cynulliad, yr Adran Addysg a Chyflogaeth, a’r Cynghorau Addysgu Cyffredinol wedi’i sefydlu. Bydd hyn y fodd i sicrhau bod y trefniadau gweinyddol yn mynd rhagddynt yn rhwydd, ac na fydd unrhyw un o’r prosesau y golygu y bydd pobl yn colli gwasanaethau. Dylai hyn hefyd leddfu pryderon Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ynghylch y ffaith ei bod yn ymddangos mai safle israddol sydd gan Gymru.

9. **ADOLYGIAD O GALEDI YMHLITH MYFYRWYR**

Mae cadeirydd y Grp wedi rhoi gwybod i mi bod y Grp yn bwriadu lansio’i adroddiad i mi a holl aelodau’r Cynulliad yn y Neuadd ar ôl y Cyfarfod Llawn ar 14 Mehefin 2001. Byddaf yn ymateb trwy wneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Mehefin 2001.